Department for Science, Innovation & Technology

# Rhannu gwybodaeth i gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus

## Ehangu'r pwerau rhannu gwybodaeth yn Rhan 5 (pennod un) Deddf yr Economi Ddigidol 2017 i gefnogi budd-daliadau pasbort a lleihau tlodi tanwydd.

29 Gorffennaf 2025

Gorffennaf 2025

© Hawlfraint y Goron 2024

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored, fersiwn 3.0, oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch neges e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn: alt.formats@dsit.gov.uk

# Rhagair gan y Gweinidog

Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i gyflawni 5 cenhadaeth a fydd yn ffurfio dyfodol y Deyrnas Unedig – sbarduno twf economaidd, creu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) sy'n addas i'r dyfodol, creu strydoedd mwy diogel, chwalu rhwystrau rhag cyfleoedd, a gwneud Prydain yn archbŵer ynni glân.

Mae cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn well trwy rannu gwybodaeth yn effeithiol yn hanfodol i gyflawni'r blaenoriaethau hyn. Trwy symleiddio gwybodaeth a datgloi pŵer data, gall y llywodraeth ddatblygu rhaglenni sy'n rhoi cymorth ariannol i aelwydydd ar incwm isel ac aelwydydd sy'n agored i niwed, ar yr un pryd â mynd i'r afael ag achosion craidd anfantais. Mae hyn yn cynnwys helpu teuluoedd i reoli costau byw, manteisio ar gyfleoedd addysgol a newid i arferion mwy cynaliadwy sy'n arbed ynni.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig newidiadau deddfwriaethol i hwyluso rhannu gwybodaeth o dan Ran 5 (pennod un) Deddf yr Economi Ddigidol 2017 a chefnogi cyflawni mentrau pwysig.

Yn gyntaf, mae'n ceisio creu amcan newydd, ac ychwanegu unigolion penodedig eraill, o dan y pŵer Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus yn adran 35 Deddf yr Economi Ddigidol 2017. Bydd hyn yn grymuso rhai cyrff llywodraethol a rhai awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys llywodraeth leol ac ysgolion, yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, i rannu gwybodaeth er mwyn hwyluso'r broses o dargedu a darparu budd-daliadau pasbort sy'n gysylltiedig ag addysg i gynorthwyo teuluoedd sydd â phlant mewn addysg. Mae'r budd-daliadau hyn yn caniatáu i blant sydd dan anfantais economaidd ymgysylltu'n llawnach ag addysg, gan arwain at ganlyniadau addysgol gwell a helpu i chwalu rhwystrau rhag cyfleoedd.

Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i chwalu'r rhwystrau hynny ac mae'r cynnig hwn yn cyd-fynd â'n huchelgais i leihau tlodi plant ledled y Deyrnas Unedig. Cydnabyddwn fod anfantais economaidd yn gallu effeithio ar gyfleoedd mewn bywyd yn yr hirdymor, ac ni ddylai fyth rwystro plentyn rhag llwyddo. Dyna pam rydym yn canolbwyntio ar roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn a pherson ifanc.

Mae'r ail gynnig yn ceisio diwygio adran 36 Deddf yr Economi Ddigidol 2017 sy'n ymwneud â thlodi tanwydd, fel y gellir cyflwyno cynllun rhyddhau o ddyled i leihau dyled ynni. Byddai hyn yn cynorthwyo aelwydydd ar incwm isel sydd wedi cronni dyled ynni yn ystod yr argyfwng costau byw. Trwy fanteisio ar ddata a rhannu gwybodaeth yn ddiogel, gall y llywodraeth sicrhau bod cymorth yn cael ei roi i unigolion ac aelwydydd cymwys, gan leihau beichiau ariannol a helpu i atal caledi pellach.

Mae defnyddio gwybodaeth i wella mynediad at fudd-daliadau pasbort a chymorth ariannol wedi'i dargedu yn dangos y buddion pendant y gellir eu gwireddu pan fydd adrannau llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cydweithio'n agos i gyflenwi gwasanaethau gwell a chydgysylltiedig, a chanlyniadau gwell i ddinasyddion. Dylai rhannu gwybodaeth yn effeithlon ar draws y sector cyhoeddus fod yn arfer yn hytrach nag eithriad.

A minnau'n Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Wyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg, rwyf wedi ymrwymo i fanteisio ar bŵer data i ddatgloi a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus mwy integredig a deallus, ar yr un pryd â chynnal diogelwch, preifatrwydd ac ymddiriedaeth o'r safon uchaf. Ein nod yw sicrhau bod data'n cael ei ddefnyddio i greu buddion ystyrlon a chadarnhaol i'n holl ddinasyddion ar draws y wlad.

# Cynnwys


**Rhagair gan y Gweinidog** 3

**Gwybodaeth gyffredinol** 6

Pam rydym yn ymgynghori 6

Manylion yr ymgynghoriad 6

Sut i ymateb 7

Cyfrinachedd a diogelu data 7

Sicrhau ansawdd 7

**Crynodeb gweithredol** 8

**Diben yr ymgynghoriad hwn** 9

**Rhan 1: yr amcan budd-daliadau pasbort** 10

Deddf yr Economi Ddigidol 2017 – adran 35 10

Y cynnig – cyflwyno amcan rhannu gwybodaeth newydd o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 11

Y broses ymgeisio bresennol 12

Manteision mynediad at y darpariaethau pasbort 13

Manteision rhannu gwybodaeth 14

Beth yw'r amcan rhannu gwybodaeth newydd? 15

Pwy fydd yn defnyddio'r pŵer rhannu gwybodaeth? 15

Pwy gaiff ddefnyddio'r wybodaeth a pham? 16

Pa wybodaeth fydd yn cael ei rhannu? 17

Beth yw effaith debygol yr amcan newydd? 18

Pam cyflwyno'r amcan nawr? 19

Sut mae'r amcan rhannu gwybodaeth yn cyd-fynd â blaenoriaethau llywodraeth y Deyrnas Unedig? 20

Pam mae llywodraeth y Deyrnas Unedig yn datblygu'r cynnig hwn? 22

A yw'r amcan rhannu gwybodaeth hwn yn berthnasol ledled Cymru, Lloegr a'r Alban? 22

A fydd rhannu gwybodaeth yn cydymffurfio â'r gofynion diogelu data perthnasol? 22

A fyddwch chi'n paratoi asesiad o'r effaith ar ddiogelu data? 23

A fydd rhannu gwybodaeth yn cydymffurfio ag arfer gorau presennol? 23

Asesiad o'r effaith 23

Cwestiynau ymgynghori ar gyfer yr amcan budd-daliadau pasbort 24

**Rhan 2: y diwygiad i'r pŵer tlodi tanwydd** 27

Y cynnig – diwygio adran 36 Deddf yr Economi Ddigidol 2017 28
Cynllun Rhyddhau o Ddyled Ofgem 28
Manteision rhannu gwybodaeth 29
Cynnig i rannu gwybodaeth o dan y Cynllun Rhyddhau o Ddyled 30
Pwy fydd y newidiadau arfaethedig i adran 36 yn effeithio arnynt? 30
A yw’r newidiadau arfaethedig i adran 36 yn berthnasol ledled y Deyrnas Unedig? 31
A fydd rhannu gwybodaeth yn cydymffurfio â’r gofynion diogelu data perthnasol? 31
A fyddwch chi’n paratoi asesiad o’r effaith ar ddiogelu data? 31
A fydd rhannu gwybodaeth yn cydymffurfio ag arfer gorau presennol? 32
Asesiad o’r effaith 32
Cwestiynau ymgynghori ar gyfer y diwygiad i adran 36 32
**Gofynion ymgynghori 33**
**Y camau nesaf 34**
Amserlen dros dro ar gyfer y broses seneddol 34

# Gwybodaeth gyffredinol

## Pam rydym yn ymgynghori

Mae'r ymgynghoriad hwn yn amlinellu cynnig yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg i wneud newidiadau sy'n effeithio ar bwerau yn Neddf yr Economi Ddigidol 2017 er mwyn gallu rhannu gwybodaeth i gefnogi cyflenwi budd-daliadau pasbort (fel prydau ysgol am ddim) a rhoi cymorth i unigolion ac aelwydydd sydd â dyled ynni trwy gyflwyno Cynllun Rhyddhau o Ddyled ynni.

## Manylion yr ymgynghoriad

**Cyhoeddwyd:** 29 Gorffennaf 2025

**Ymateb erbyn:** 23 Medi 2025

**Ymholiadau at:**

Y Tîm Deddfwriaeth Rhannu Data
Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth
Yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg
7fed Llawr, Adeilad White Chapel
10 Whitechapel High Street
Llundain
E1 8QS

E-bost: dea-consultation2025@dsit.gov.uk

**Cyfeirnod yr ymgynghoriad:** Rhannu gwybodaeth i gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus

**Cynulleidfaoedd:**

Mae'r ymgynghoriad yn gwahodd safbwyntiau gan y cyhoedd, awdurdodau lleol, ysgolion, cwmnïau ynni ac unrhyw bartïon eraill â buddiant.

**Rhychwant tiriogaethol:**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhychwantu Cymru, Lloegr a'r Alban.

# Sut i ymateb

Gallwch ymateb i'r arolwg hwn trwy gwblhau'r arolwg Ffurflenni GOV.UK:

**Ymatebwch ar-lein yn:** Ffurflenni GOV.UK

Fel arall, os hoffech gyflwyno gwybodaeth na ellir ei darparu trwy'r we neu os byddai'n well gennych ymateb trwy e-bost, anfonwch eich ymateb at dea-consultation@dsit.gov.uk.

Bydd eich ymateb yn fwyaf defnyddiol os bydd yn ateb y cwestiynau a ofynnwyd yn uniongyrchol, er y croesewir tystiolaeth a sylwadau eraill hefyd.

# Cyfrinachedd a diogelu data

Fe allai'r wybodaeth a ddarparwch wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei datgelu yn unol â deddfwriaeth y Deyrnas Unedig (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y Deyrnas Unedig, Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych eisiau i'r wybodaeth a ddarparwch gael ei thrin yn gyfrinachol, rhowch wybod i ni, ond ni allwn warantu cyfrinachedd ym mhob achos. Ni fyddwn yn ystyried bod ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchwyd gan eich system TG yn gais am gyfrinachedd.

Byddwn yn prosesu eich data personol yn unol â'r holl ddeddfau diogelu data perthnasol. Gweler ein polisi preifatrwydd.

Peidiwch â rhannu data personol categori arbennig na data am droseddau os nad ydym wedi gofyn amdano oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol i'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Yr hyn a olygwn wrth 'ddata personol categori arbennig' yw gwybodaeth am unigolyn byw sy'n ymwneud â'i: hil, tarddiad ethnig, safbwyntiau gwleidyddol, credoau crefyddol neu ddamcaniaethol, aelodaeth ag undeb llafur, geneteg, biometreg, iechyd (gan gynnwys gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag anabledd), bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol. Yr hyn a olygwn wrth 'ddata am droseddau' yw gwybodaeth sy'n ymwneud ag euogfarnau neu droseddau neu fesurau diogelwch cysylltiedig unigolyn byw.

Byddwn yn crynhoi'r holl ymatebion ac yn cyhoeddi'r crynodeb hwn ar GOV.UK. Bydd y crynodeb yn cynnwys rhestr o enwau neu sefydliadau a ymatebodd, ond nid enwau personol pobl, eu cyfeiriadau na'u manylion cyswllt eraill.

# Sicrhau ansawdd

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn yn unol ag egwyddorion ymgynghori y llywodraeth.

Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn, anfonwch neges e-bost at: dea-consultation2025@dsit.gov.uk

# Crynodeb gweithredol

1. Lluniwyd Rhan 5 Deddf yr Economi Ddigidol 2017 i leihau rhwystrau cyfreithiol rhag rhannu gwybodaeth a galluogi awdurdodau cyhoeddus i rannu gwybodaeth, gan gynnwys data personol, at ddibenion penodol. Mae'r pwerau Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus a gynhwysir ym Mhennod 1 Rhan 5 Deddf yr Economi Ddigidol 2017 yn caniatáu i awdurdodau cyhoeddus penodedig rannu gwybodaeth bersonol at ddibenion penodol, y cyfeirir atynt fel amcanion, sydd wedi'u hamlinellu mewn rheoliadau. Mae'r pŵer Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus yn adran 35 yn caniatáu i awdurdodau cyhoeddus penodedig, a restrir yn atodlen 4 Deddf yr Economi Ddigidol 2017, ddatgelu gwybodaeth, gan gynnwys data personol, ar gyfer amcanion a amlinellir mewn rheoliadau. Nod y pŵer rhannu gwybodaeth hwn yw gwella neu dargedu gwasanaethau cyhoeddus, neu hwyluso buddion (ariannol neu fel arall) i unigolion neu aelwydydd er mwyn gwella eu lles; a chefnogi'r broses o gyflawni swyddogaethau cyrff perthnasol neu weinyddu, monitro neu orfodi'r swyddogaethau hynny.

2. Mae'r pŵer yn adran 35 Deddf yr Economi Ddigidol 2017 yn ddarostyngedig i ddiwygiadau trwy adran 123 Deddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025, pan ddaw adran 123 i rym, ond nid yw'r newidiadau hynny'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn.

3. Mae'r pŵer Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus yn adran 36 yn caniatáu ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng adrannau'r llywodraeth a chyflenwyr ynni i gynorthwyo unigolion sydd mewn tlodi tanwydd, yn ddarostyngedig i ddau amod. Yn gyntaf, mae'n rhaid i'r datgeliad geisio cynorthwyo pobl sy'n byw mewn tlodi tanwydd trwy leihau costau ynni, gwella effeithlonrwydd ynni, neu wella eu hiechyd neu eu lles ariannol. Diffinnir tlodi tanwydd yn adran 36(10) fel y berthynas rhwng incwm blynyddol aelwyd a chost cynnal cartref rhesymol gynnes. Yn ail, mae'n rhaid i'r wybodaeth gael ei rhannu gyda'r bwriad y bydd cyflenwyr yn ei defnyddio mewn cysylltiad â chynlluniau penodol a darpariaethau deddfwriaethol a restrir yn adran 36(3), fel y rhai hynny o dan Ddeddf Ynni 2010, Deddf Nwy 1986, Deddf Trydan 1989, neu Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1990.

4. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys dwy ran, sy'n ceisio safbwyntiau ar y newidiadau canlynol mewn perthynas â'r pwerau Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus yn Rhan 5 Deddf yr Economi Ddigidol 2017:

    a. cyflwyno amcan rhannu gwybodaeth newydd, ac ychwanegu unigolion penodedig, trwy reoliadau o dan adran 35 Deddf yr Economi Ddigidol 2017. Diben hyn yw cefnogi darparu a derbyn budd-daliadau pasbort sy'n gysylltiedig ag addysg, sef budd-daliadau y mae unigolyn yn gymwys iddynt oherwydd ei fod yn derbyn budd-daliadau eraill.

    b. diwygio'r pŵer tlodi tanwydd yn adran 36 Deddf yr Economi Ddigidol 2017 i rannu gwybodaeth yn ehangach a galluogi darparu Cynllun Rhyddhau o Ddyled ynni i gynorthwyo aelwydydd sydd â dyled ynni.

# Diben yr ymgynghoriad hwn

5. Mae'r ymgynghoriad hwn yn amlinellu cynnig i gyflwyno amcan newydd, ac ychwanegu unigolion penodedig newydd at atodlen 4, trwy reoliadau o dan adran 35(3) a (7) Deddf yr Economi Ddigidol 2017 a diwygio adran 36. I grynhoi, bydd y newidiadau hyn yn galluogi:

    - rhannu gwybodaeth rhwng adrannau llywodraeth y Deyrnas Unedig, fel Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi, yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Adran Addysg a rhai awdurdodau cyhoeddus, fel awdurdodau lleol ac ysgolion, ledled Cymru, Lloegr a'r Alban i wella targedu a darparu'r budd-daliadau pasbort sy'n gysylltiedig ag addysg a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn; a
    - rhannu gwybodaeth rhwng y llywodraeth a chyflenwyr nwy a thrydan i ganiatáu ar gyfer Cynllun Rhyddhau o Ddyled ynni i gynorthwyo unigolion ac aelwydydd sydd wedi cronni dyled ynni yn ystod yr argyfwng costau byw.

6. Mae'r ymgynghoriad yn ceisio safbwyntiau gan ddinasyddion, adrannau'r llywodraeth, awdurdodau cyhoeddus, cyflenwyr ynni neu unrhyw sefydliad sy'n credu y gallai'r newidiadau arfaethedig i'r pwerau Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus yn Rhan 5 Deddf yr Economi Ddigidol 2017 effeithio arno. Croesawn ymatebion hefyd gan unigolion eraill â buddiant neu aelodau'r cyhoedd.

# Rhan 1: yr amcan budd-daliadau pasbort

## Deddf yr Economi Ddigidol 2017 – adran 35

7. Mae'r rhan hon o'r ymgynghoriad yn amlinellu cynnig y llywodraeth i sefydlu amcan rhannu gwybodaeth newydd o dan adran 35 Deddf yr Economi Ddigidol 2017 ac ychwanegu unigolion penodedig newydd at atodlen 4. Mae adran 35 yn galluogi unigolyn a nodir yn atodlen 4 ('unigolyn penodedig') i ddatgelu gwybodaeth y mae'n ei dal mewn cysylltiad ag unrhyw un o'i swyddogaethau i unigolyn penodedig arall ar gyfer amcan a nodir mewn rheoliadau. Yn Neddf yr Economi Ddigidol 2017, mae unigolyn penodedig yn awdurdod cyhoeddus, fel un o adrannau'r llywodraeth, awdurdod lleol neu ysgol. Mae hyn yn rhoi pwerau rhannu gwybodaeth, sef 'amcanion', i awdurdodau cyhoeddus penodedig i wella'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu targedu a'u cyflenwi a gwella lles unigolion ac aelwydydd. Gall unigolion penodedig arfer y pwerau rhannu gwybodaeth ar gyfer amcan, ar yr amod eu bod nhw a'r cyrff eraill y bwriedir iddynt fod yn gysylltiedig â rhannu'r wybodaeth wedi'u rhestru yn atodlen 4 gysylltiedig Deddf yr Economi Ddigidol 2017 a'r rheoliadau ar gyfer yr amcan perthnasol. Mae'n rhaid i'r unigolion penodedig hefyd gydymffurfio â'r Cod Ymarfer statudol.

8. Gall y llywodraeth neu awdurdod datganoledig (fel y bo'n berthnasol) greu amcanion newydd trwy reoliadau ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf yn adran 35 Deddf yr Economi Ddigidol 2017 ac yn sicrhau cymeradwyaeth seneddol. Mae'r meini prawf fel a ganlyn:
    - amod 1: y diben yw gwella neu dargedu gwasanaeth cyhoeddus a ddarperir i unigolion neu aelwydydd, neu hwyluso darparu budd (ariannol neu fel arall) i unigolion neu aelwydydd
    - amod 2: y diben yw gwella lles unigolion neu aelwydydd. Mae'r cyfeiriad at les unigolion neu aelwydydd yn cynnwys: eu hiechyd corfforol a meddyliol a'u lles emosiynol, eu cyfraniad at gymdeithas, a'u lles cymdeithasol ac economaidd; ac
    - amod 3: y diben yw cefnogi'r broses o gyflawni swyddogaethau unigolyn penodedig, neu weinyddu, monitro neu orfodi swyddogaethau unigolyn penodedig.

9. Mae'n rhaid i'r rheoliadau bennu'r amcan neu'r amcanion y ceir datgelu gwybodaeth ar ei gyfer/eu cyfer a nodi'r cyrff penodol a gaiff ddibynnu ar yr amcan neu'r amcanion. Mae'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn berthnasol i reoliadau o'r fath, sy'n golygu bod angen i reoliadau drafft gael eu cymeradwyo gan ddau Dŷ'r Senedd cyn y gellir eu

gwneud. Mae'r Cod Ymarfer[1] ar gyfer y pŵer Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus yn darparu'r egwyddorion a'r arweiniad ar ddefnyddio'r pŵer a sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth diogelu data.

10. Amlinellir amcanion presennol o dan adran 35 yn Rheoliadau Llywodraeth Ddigidol (Datgelu Gwybodaeth) 2018[2] a Rheoliadau Llywodraeth Ddigidol (Datgelu Gwybodaeth) (Gwasanaethau Hunaniaeth) 2024[3].

11. Bydd yr amcan budd-daliadau pasbort arfaethedig yn cyflwyno amcan rhannu gwybodaeth newydd o dan adran 35 i wella'r ffordd y mae budd-daliadau pasbort sy'n gysylltiedig ag addysg yn cael eu targedu a'u darparu. Mae cymhwysedd ar gyfer y budd-daliadau pasbort sy'n gysylltiedig ag addysg a restrir yn cael ei bennu gan gymhwysedd unigolyn a'r budd-daliadau eraill y mae'n eu derbyn, er enghraifft, Credyd Cynhwysol. Bydd yr amcan hwn yn rhoi porth cyfreithiol i awdurdodau cyhoeddus, fel awdurdodau lleol a sefydliadau addysgol, gael mynediad at wybodaeth gan adrannau llywodraeth y Deyrnas Unedig, fel Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi, yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Adran Addysg, i amlygu a thargedu'r hawl i gael budd-daliadau pasbort sy'n gysylltiedig ag addysg. Bydd hyn yn helpu i gynyddu mynediad at gymorth hollbwysig ar gyfer teuluoedd sy'n profi anawsterau economaidd. Bydd hefyd yn gwella'r ffordd y mae cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu i gefnogi sefydliadau addysgol sydd â chyfran uchel o ddisgyblion o aelwydydd incwm isel.

## Y cynnig – cyflwyno amcan rhannu gwybodaeth newydd o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017

12. Mae llywodraeth y Deyrnas Unedig, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban, yn cynnig creu amcan Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus newydd, sef yr amcan budd-daliadau pasbort addysg, o dan adran 35 Deddf yr Economi Ddigidol 2017.

13. Byddai'r amcan budd-daliadau pasbort addysg yn caniatáu i rai awdurdodau cyhoeddus, fel awdurdodau lleol a sefydliadau addysgol ledled Cymru, Lloegr a'r Alban, gael mynediad at wybodaeth gan adrannau llywodraeth y Deyrnas Unedig, fel Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi, yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Adran Addysg, i amlygu a thargedu'r hawl i gael budd-daliadau pasbort sy'n gysylltiedig ag addysg. Bydd hyn yn helpu i gynyddu mynediad at gymorth hollbwysig ar gyfer teuluoedd sy'n profi anawsterau economaidd. Bydd hefyd yn gwella'r ffordd y mae cyllid ychwanegol yn cael

[1] https://www.gov.uk/government/publications/digital-economy-act-2017-part-5-codes-of-practice/code-of-practice-for-public-authorities-disclosing-information-under-chapters-1-3-and-4-public-service-delivery-debt-and-fraud-of-part-5-of-the-di

[2] https://www.legislation.gov.uk/uksi/2018/912/introduction/made fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Llywodraeth Ddigidol (Datgelu Gwybodaeth) (Diwygio) 2022

[3] https://www.legislation.gov.uk/uksi/2024/64

ei ddarparu i gefnogi sefydliadau addysgol sydd â chyfran uchel o ddisgyblion o aelwydydd incwm isel.

Mae'r budd-daliadau pasbort canlynol o fewn cwmpas yr amcan arfaethedig:

- Lloegr
  i. Prydau Ysgol am Ddim a phrydau ysgol am ddim mewn addysg bellach
  ii. Y Gronfa Bwrsariaeth 16-19
  iii. Premiwm Disgyblion a chyllid arall sy'n gysylltiedig ag amddifadedd, gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig I, ffactor amddifadedd y fformiwla gyllido genedlaethol ysgolion

- Yr Alban
  i. Prydau Ysgol am Ddim
  ii. Y Lwfans Cynhaliaeth Addysg
  iii. Grantiau Dillad Ysgol
  iv. Her Cyrhaeddiad yr Alban[4]

- Cymru
  i. Prydau Ysgol am Ddim
  ii. Y Grant Hanfodion Ysgol
  iii. Y Grant Datblygu Disgyblion

14. Yn unol ag adran 2.4 y Cod Ymarfer, mae'r amcan newydd arfaethedig wedi cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Adolygu Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus[5].

# Y broses ymgeisio bresennol

15. Mae'r broses ymgeisio bresennol yn amrywio ar gyfer y budd-daliadau a restrir ym mharagraff 13. Gellir gofyn i unigolion ddarparu tystiolaeth o'u hincwm ar wahân ar gyfer pob un o'r budd-daliadau cymwys y gallent fod yn eu derbyn, a chwblhau cais llawn i'w gyflwyno i'r awdurdod lleol perthnasol neu'r ysgol berthnasol. Mae'r broses hon yn hir ac yn gallu bod yn feichus ac yn gymhleth i ymgeiswyr.

16. Nifer isel o bobl sy'n manteisio ar y budd-daliadau, ac mae awdurdodau lleol wedi dweud bod sawl rheswm am hynny:

   - diffyg ymwybyddiaeth o'r budd-daliadau a'r cymorth sydd ar gael;

   - cred bod eu hincwm neu eu hamgylchiadau yn golygu eu bod yn anghymwys neu'n eu heithrio rhag cael cymorth;

[4] Her Cyrhaeddiad yr Alban yw'r term ambarél ar gyfer rhaglenni yn yr Alban sy'n ceisio lleihau'r bwlch cyrhaeddiad sy'n gysylltiedig â thlodi. Bwriedir i'r amcan hwn ddarparu porth cyfreithiol ar gyfer Her Cyrhaeddiad yr Alban a rhaglenni tebyg yn y dyfodol sy'n rhannu'r nod hwn.
[5] https://www.gov.uk/government/groups/digital-economy-act-public-service-delivery-review-board

- teimlo eu bod yn cael eu stigmateiddio oherwydd bod rhaid iddynt gysylltu â llawer o adrannau i ofyn am ddogfennau i ddangos tystiolaeth o gymhwysedd a chyflwyno cais; a
- chael eu gorlethu gan heriau eraill sy'n eu hwynebu yn dilyn newid i'w bywyd ac felly oedi cyn gwneud cais.

17. Byddai'r amcan arfaethedig yn galluogi'r llywodraeth i rannu gwybodaeth gydag awdurdodau lleol ac ysgolion i helpu i amlygu a thargedu teuluoedd a allai ei chael hi'n anodd fel arall i ddangos tystiolaeth o'u cymhwysedd a chwblhau'r broses ymgeisio llawn yn annibynnol.
18. Ar hyn o bryd, mae'r Adran Addysg yn darparu Gwasanaeth Gwirio Cymhwysedd ar-lein i gefnogi prydau ysgol am ddim ar gyfer Cymru a Lloegr i alluogi ysgolion ac awdurdodau lleol yn y gwledydd hynny i wirio cymhwysedd rhieni'n gyflym ac yn rhwydd heb fod angen darparu dogfennau helaeth. Fodd bynnag, mae rhai rhieni'n cael trafferth ymgeisio o hyd am y rhesymau a restrir ym mharagraff 16. Bydd yr amcan rhannu gwybodaeth yn cefnogi'r broses bresennol a dyfarnu prydau ysgol am ddim.
19. Mae'r system ddyrannu bresennol ar gyfer y Premiwm Disgyblion a chyllid amddifadedd arall a restrwyd, yn ogystal â'r Grant Datblygu Disgyblion yng Nghymru, yn golygu bod ysgolion a cholegau, neu awdurdodau lleol yng Nghymru, yn casglu gwybodaeth a dangos tystiolaeth o gymhwysedd disgyblion. Byddai rhannu data yn effeithiol, gan ddefnyddio gwybodaeth y mae'r llywodraeth eisoes yn ei dal, yn symleiddio'r broses hon a chyflawni arbedion effeithlonrwydd.
20. O ran Her Cyrhaeddiad yr Alban, mae Llywodraeth yr Alban yn adrodd bod yr hawl gyffredinol sydd gan lawer o grwpiau oedran yn golygu nad yw'r meini prawf prydau ysgol am ddim a ddefnyddir i ddyrannu Her Cyrhaeddiad yr Alban a chyllid arall awdurdodau lleol yn ddangosydd dibynadwy mwyach o amddifadedd cyfoes ar draws ysgolion cynradd. Mae Llywodraeth yr Alban yn gweithio trwy'r broses o gael at ddata a fyddai'n cryfhau'r sylfaen dystiolaeth ar amddifadedd lefel ysgol.

## Manteision mynediad at y darpariaethau pasbort

21. Disgwylir i fynediad at y budd-daliadau pasbort penodedig fod yn fuddiol i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd mewn sawl ffordd, gan gynnwys rhai neu bob un o'r canlynol.
    - Rydym yn gwybod bod manteisio ar y darpariaethau yn gwella lles emosiynol plant a phobl ifanc mewn addysg.
    - Mae darparu cinio ysgol maethlon yn hybu amgylchedd dysgu magwrol ac fe all arwain at effeithiau cadarnhaol ar ymddygiad a chyrhaeddiad.
    - I lawer o deuluoedd, gall cost dillad ysgol fod yn ffactor arwyddocaol sy'n atal disgyblion rhag cymryd rhan a bod yn bresennol yn yr ysgol. Gall hyn gael effaith

sylweddol ar les plant a phobl ifanc ac effaith negyddol ar eu profiad, eu cyflawniadau a'u canlyniadau yn yr ysgol. Bydd darparu grant i gynorthwyo teuluoedd â'r gost yma'n sicrhau bod plant yn teimlo'n barod ar gyfer yr ysgol.

- Gall darparu cyllid fod o gymorth mawr i bobl ifanc o deuluoedd incwm isel hefyd, i'w galluogi i barhau â'u haddysg a chyrraedd nod cadarnhaol, fel cyflogaeth neu addysg bellach ac uwch. Bydd cymorth ariannol yn helpu i chwalu rhwystrau rhag cyfleoedd, gan roi opsiynau i bobl ifanc a'u teuluoedd wrth benderfynu p'un ai aros mewn addysg neu beidio

- Disgwylir i'r cymorth a ddarperir gan y budd-daliadau pasbort ddarparu ystod ehangach o fuddion i deuluoedd ac aelwydydd ar incwm isel hefyd, gan gynnwys gwella eu lles a'u rhagolygon ariannol.

- Bydd targedu cyllid yn well i sefydliadau addysg er mwyn iddynt gynorthwyo disgyblion sydd dan anfantais yn gwella ansawdd y lleoliad addysg, gan ganiatáu i ysgolion ffurfio dulliau wedi'u targedu o fynd i'r afael â materion cyffredin sy'n effeithio ar ddysgu yn yr ysgol, er enghraifft, ariannu gwasanaeth cwnsela ysgol i wella lles, neu ariannu gwersi anghenion addysgol arbennig ac anableddau (AAAA) i atgyfnerthu dysgu. Mae cyllid ar gyfer ysgolion yn golygu y gellir rhoi ymyriadau a mesurau cadarnhaol ar waith, sy'n cael effaith ar y rhai sy'n denu'r cyllid, yn ogystal â'r sbectrwm ehangach, gan sicrhau canlyniadau addysgol gwell a phrofiadau cadarnhaol i'r disgyblion.

## Manteision rhannu gwybodaeth

22. Disgwylir i rannu gwybodaeth i gefnogi darparu a manteisio ar y budd-daliadau pasbort gyflawni rhai neu bob un o'r manteision canlynol:

    - gall teuluoedd elwa o broses ymgeisio symlach;
    - bydd awdurdodau lleol yn gallu amlygu a thargedu aelwydydd sy'n debygol o fod yn gymwys ar gyfer y budd-daliadau pasbort trwy ddefnydd effeithiol o wybodaeth;
    - bydd y llywodraeth ac awdurdodau lleol ledled Cymru, Lloegr a'r Alban yn gallu defnyddio dull mwy cydgysylltiedig o leihau effaith cyfyngiadau ariannol ar deuluoedd sydd â phlant mewn addysg;
    - bydd rhannu gwybodaeth yn galluogi gwasanaethau i gyd-fynd â'i gilydd yn well, gan leihau unrhyw stigma sy'n codi o'r angen i gysylltu â nifer o awdurdodau cyhoeddus i wneud cais;
    - bydd awdurdodau lleol yn gallu cyflawni eu swyddogaethau'n well a thargedu cymorth tuag at y rhai y mae arnynt ei angen fwyaf;

- mae rhannu gwybodaeth yn debygol o gynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar y budd-daliadau, gan gyrraedd carfan o aelwydydd nad ydynt yn eu derbyn ar hyn o bryd, a sicrhau bod y rhai sy'n gymwys yn gallu arfer eu hawl;
- bydd awdurdodau lleol yn cysylltu â theuluoedd i roi gwybod iddynt eu bod yn debygol o fod yn gymwys, gan sicrhau bod y rhai a allai fod â'r hawl i gael y cynnig lleol yn ymwybodol ohono, a lliniaru un o'r prif resymau dros y nifer isel sy'n manteisio ar y budd-daliadau;
- gellid lleihau'r amser a dreulir ar hyn o bryd yn casglu a gwirio tystiolaeth o gymhwysedd disgyblion a myfyrwyr; a
- bydd y broses ar gyfer dyrannu cyllid ychwanegol i ysgolion a lleoliadau addysgol eraill yn cael ei symleiddio a'i gwella trwy ddefnyddio data a ddelir gan y llywodraeth, gan ddarparu cyllid i ysgolion sydd â chyfran uchel o ddisgyblion o aelwydydd incwm isel. Mae hyn yn golygu y gellir targedu cyllid yn well i gyrraedd y rhai mwyaf difreintiedig.

## Beth yw'r amcan rhannu gwybodaeth newydd?

23. Mae'r llywodraeth yn bwriadu ychwanegu amcan Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus newydd i ganiatáu ar gyfer rhannu gwybodaeth bersonol er mwyn helpu i ganfod unigolion neu aelwydydd cymwys, ac felly helpu i gynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar y budd-daliadau pasbort yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

    Byddai'n galluogi adrannau llywodraeth y Deyrnas Unedig, fel Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi, yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Adran Addysg, i rannu gwybodaeth â rhai awdurdodau cyhoeddus ledled Cymru, Lloegr a'r Alban. Byddai hyn yn caniatáu i'r awdurdod cyhoeddus, yr awdurdod lleol neu'r sefydliad addysg perthnasol gael at y wybodaeth angenrheidiol i'w alluogi i ganfod teuluoedd ac aelwydydd cymwys, cysylltu â nhw a rhoi cymorth iddynt.

## Pwy fydd yn defnyddio'r pŵer rhannu gwybodaeth?

24. Yr awdurdodau cyhoeddus arfaethedig a fyddai'n gallu arfer y pŵer, sydd yn atodlen 4 ar hyn o bryd, at ddibenion yr amcan budd-daliadau pasbort newydd fydd:

    a. Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi;
    b. yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau;
    c. yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg;
    ch. perchennog ysgol o fewn ystyr Deddf Addysg 1996;
    d. perchennog Academi o fewn ystyr y Ddeddf honno;
    dd. yr unigolyn cyfrifol yn gysylltiedig â sefydliad addysgol fel y'i diffinnir gan adran 72(5) Deddf Addysg a Sgiliau 2008 (heblaw am unigolyn o fewn paragraff 23 neu 24);

e. cyngor sir yn Lloegr;
f. cyngor dosbarth yn Lloegr;
ff. cyngor dosbarth yn Llundain;
g. awdurdod cyfun a sefydlwyd o dan adran 103 Deddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009;
ng. awdurdod cyfun a sefydlwyd o dan adran 9(1) Deddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023;
h. Cyngor Cyffredin Dinas Llundain yn ei rinwedd fel awdurdod lleol;
i. Gweinidogion yr Alban;
j. awdurdodau lleol yr Alban fel y'u diffinnir o dan adran 2 Deddf Llywodraeth Leol etc. (Yr Alban) 1994;
l. cyngor sir yng Nghymru;
ll. cyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;
m. cyngor cymuned yng Nghymru; ac
n. unigolyn sy'n darparu gwasanaethau mewn cysylltiad ag amcan penodedig (o fewn ystyr adran 35) i unigolyn penodedig
    (a) sy'n dod o fewn y Rhan hon o'r atodlen hon; ac
    (b) sy'n awdurdod cyhoeddus.

25. Mae'r llywodraeth hefyd yn ymgynghori ar gynnwys awdurdodau cyhoeddus ychwanegol yn atodlen 4 a'u pennu at ddibenion yr amcan budd-daliadau pasbort addysg arfaethedig. Bydd hyn yn golygu diwygio'r cofnodion presennol ac ychwanegu awdurdodau cyhoeddus newydd at atodlen 4. Bydd yr awdurdodau cyhoeddus ychwanegol hyn yn cefnogi darparu'r budd-daliadau pasbort i unigolion.

    a. perchennog ysgol Academi, o fewn ystyr adran 1A Deddf Academïau 2010;
    b. perchennog Academi darpariaeth amgen, o fewn ystyr adran 1C y Ddeddf honno;
    c. corff llywodraethu ysgol a gynhelir, o fewn ystyr Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (gweler adran 20(7) y Ddeddf honno);
    ch. corff llywodraethu ysgol arbennig nas cynhelir, sef ysgol a gymeradwywyd o dan adran 342 Deddf Addysg 1996;
    d. pwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion, o fewn ystyr adran 19 Deddf Addysg 1996

# Pwy gaiff ddefnyddio'r wybodaeth a pham?

26. Yr awdurdodau cyhoeddus sy'n gallu defnyddio'r wybodaeth a amlinellir ym mharagraffau 24 a 25 yw'r unigolion penodedig a restrir yn atodlen 4 Deddf yr Economi Ddigidol 2017, neu sydd i'w hychwanegu ati.

27. Mae'r wybodaeth a fydd yn helpu i wella nodi, targedu ac yna cynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar y darpariaethau pasbort yn cael ei dal gan adrannau llywodraeth y Deyrnas

Unedig, sef Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi, yr Adran Gwaith a Phensiynau a’r Adran Addysg. Bydd yr amcan rhannu gwybodaeth arfaethedig yn caniatáu i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru, Lloegr a’r Alban gael at y data angenrheidiol i bennu cymhwysedd tebygol.

28. Gall awdurdodau lleol ddefnyddio’r wybodaeth i gysylltu ag aelwydydd i roi gwybod iddynt eu bod yn debygol o fod yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, a darparu gwybodaeth am y cynnig lleol a sut i wneud cais.

    Er enghraifft, byddai Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi yn anfon gwybodaeth at yr Adran Gwaith a Phensiynau. Yna, byddai’r Adran Gwaith a Phensiynau yn rhannu gwybodaeth sy’n awgrymu cymhwysedd tebygol gydag awdurdodau lleol, a fyddai’n gallu defnyddio’r data i amlygu aelwydydd sy’n debygol o fod yn gymwys a rhoi gwybod iddynt yn uniongyrchol am eu hawl debygol.

    Bydd defnyddio gwybodaeth yn sicrhau bod aelwydydd cymwys yn ymwybodol o’r darpariaethau pasbort, ac felly na fydd diffyg ymwybyddiaeth yn atal pobl rhag manteisio arnynt mwyach.

29. Mae sefydliadau addysg yn cefnogi dyrannu’r Gronfa Bwrsariaeth 16-19 a sicrhau bod pobl yn manteisio arni, yn ogystal â’r premiwm disgyblion a chyllid amddifadedd cysylltiedig yn Lloegr. Byddai cwmpas yr amcan arfaethedig yn golygu y gellir rhannu gwybodaeth, lle y bo angen, i sicrhau bod disgyblion cymwys yn cael eu hamlygu, a bod cymorth ariannol ar gael i fyfyrwyr a sefydliadau addysg, yn ôl eu trefn.

30. Er enghraifft, o ran dyrannu’r Premiwm Disgyblion, y Grant Datblygu Disgyblion a Her Cyrhaeddiad yr Alban, byddai Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi a’r Adran Gwaith a Phensiynau yn rhannu gwybodaeth am incwm teuluoedd wedi’i chyfateb i ddata disgyblion i gadarnhau cymhwysedd i naill ai’r Adran Addysg, awdurdodau lleol yng Nghymru neu Weinidogion yr Alban. Yna, gellid defnyddio’r wybodaeth hon i asesu cymhwysedd. Pan fydd wedi’i amlygu, bydd y data’n cael ei gydgrynhoi a chaiff ei ddefnyddio i dynnu’r cyllid i lawr a’i ddyrannu i’r sefydliadau addysg perthnasol.

## Pa wybodaeth fydd yn cael ei rhannu?

31. Bydd y llywodraeth yn rhannu lleiafswm nifer yr eitemau gwybodaeth ag sy’n angenrheidiol ar gyfer y dibenion a amlinellir yn y cynnig hwn. Mae’r eitemau gwybodaeth y gellid eu rhannu yn cynnwys, er enghraifft:

    - enw’r rhiant neu’r gofalwr;
    - cyfeiriad a manylion cyswllt;
    - enwau a nifer y plant cymwys yn yr aelwyd;
    - oedran pob plentyn cymwys;
    - p’un a oes plant dibynnol eraill yn yr aelwyd;
    - arwydd budd-dal i wirio a yw’r aelwyd yn derbyn budd-daliadau cymwys, neu incwm i wirio a yw’r aelwyd dros y trothwy ar gyfer cymhwysedd;

- arwydd, fel meini prawf Plant mewn Teulu Incwm Isel, i wirio a yw'r plant yn byw mewn aelwyd ag incwm isel, i weld a yw'r plant yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cymhwysedd;
- enillion o gyflogaeth (gan gynnwys enillion o flynyddoedd blaenorol), pensiynau preifat, blwydd-daliadau neu unrhyw incwm arall a geir gan ddefnyddio'r system Gwirhau Enillion a Phensiynau neu'r system gyfatebol sy'n gweithredu at y diben hwn ar yr adeg y cynhelir y gwiriad, a
- arwyddion, gan gynnwys statws aelwyd fel: teulu un rhiant, teulu sy'n cynnwys aelodau anabl, teulu mawr â thri neu fwy o blant, teulu â mam sy'n iau na 25 oed, teulu ethnig leiafrifol, neu deulu â phlentyn iau na blwydd oed, i wirio a yw'r plant yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cymorth ychwanegol fel teuluoedd â blaenoriaeth o dan Gynllun Cyflenwi Mynd i'r Afael â Thlodi Plant yr Alban.

32. Cyn rhannu unrhyw wybodaeth, bydd yr holl bartïon i rannu'r wybodaeth yn cwblhau achos busnes cytunedig, cytundeb rhannu gwybodaeth, asesiad o'r effaith ar ddiogelu data a chynllun diogelwch yn unol â'r Cod Ymarfer. Bydd y wybodaeth yn cael ei rhannu yn unol â deddfwriaeth diogelu data, Deddf y Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005 a Chod Ymarfer Rhannu Data Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.[6]

33. Bydd yr holl bartïon i rannu'r wybodaeth yn sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei dal yn ddiogel ac yn unol â'r safonau rheoli gwybodaeth a diogelwch priodol, bod ei hansawdd yn briodol, a'i bod yn cael ei defnyddio at y diben penodedig yn unig, ei chadw am gyn hired ag sy'n angenrheidiol yn unig ac yna'i dileu'n ddiogel.

34. Bydd unrhyw a phob achos o rannu gwybodaeth o dan yr amcan arfaethedig yn cael ei gynnwys yn y gofrestr cytundebau rhannu gwybodaeth. Cofnod o rannu gwybodaeth yw hwn a hwylusir gan benodau 1 (Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus), 2 (Cofrestru Sifil), 3 (Dyled) a 4 (Twyll) rhan 5 Deddf yr Economi Ddigidol 2017.

## Beth yw effaith debygol yr amcan newydd?

35. Bydd yr amcan rhannu gwybodaeth arfaethedig hwn yn sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn gallu targedu'r hawl i'r budd-daliadau pasbort yn fwy effeithiol, gan sicrhau bod disgyblion o deuluoedd incwm isel yn gallu arfer eu hawl yn llawn. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y buddsoddiad sylweddol mewn cymorth i deuluoedd incwm isel ledled Cymru, Lloegr a'r Alban yn cyflawni ei effaith fwriadedig lawn.

36. Disgwylir i fynediad at brydau ysgol am ddim, y lwfans cynhaliaeth addysg, y Gronfa Bwrsariaeth 16-19, a grantiau dillad a hanfodion ysgol ddarparu amrywiaeth o fanteision:

- bydd lles emosiynol a chyfranogiad cymdeithasol plant yn gwella;

[6] https://ico.org.uk/for-organisations/uk-gdpr-guidance-and-resources/data-sharing/data-sharing-a-code-of-practice/

- bydd plant yn elwa o gael cinio ysgol maethlon;
- bydd y wisg ysgol gywir yn sicrhau bod plant yn barod ar gyfer yr ysgol, a fydd yn arwain at ganlyniadau, profiadau a chyflawniadau cadarnhaol ar yr un pryd â chael gwared ar stigma;
- gall cyllid ychwanegol ar gyfer disgyblion gynorthwyo pobl ifanc o aelwydydd incwm isel i barhau â'u haddysg y tu hwnt i 18 oed, gan leddfu pwysau ariannol a sicrhau bod ganddynt yr adnoddau angenrheidiol i ymgysylltu'n llawn â'u haddysg;
- bydd lles aelwydydd incwm isel yn gwella; a
- bydd aelwydydd a disgyblion yn elwa o gymorth ariannol y disgwylir iddo leihau'r rhwystr ariannol rhag cael at addysg gymaint â phosibl, gan y bydd yn helpu i dalu am gostau hanfodol a allai gyfyngu fel arall ar gymryd rhan yn llawn neu fod yn bresennol mewn addysg.

37. Bydd yr amcan cyfreithiol newydd hwn ar gyfer rhannu gwybodaeth hefyd yn helpu i ddarparu cyllid ar gyfer sefydliadau addysgol sydd â disgyblion o aelwydydd incwm isel. Disgwylir i ddyraniadau gwell ar gyfer y Premiwm Disgyblion a chyllid amddifadedd cysylltiedig, yn ogystal â Her Cyrhaeddiad yr Alban a'r Grant Datblygu Disgyblion yng Nghymru, leihau anghydraddoldeb addysgol a darparu'r manteision canlynol:

- Gwelliannau i'r amgylchedd addysgol – fe allai enghreifftiau gynnwys;

  i. gwasanaethau cwnsela a bugeiliol i wella lles plant;
  ii. swyddogion presenoldeb i gynorthwyo myfyrwyr a theuluoedd i gynyddu cyfraddau presenoldeb, sy'n cefnogi eu cyrhaeddiad; a
  iii. darparu adnoddau digonol (gwerslyfrau, gliniaduron), offer a gweithgareddau allgyrsiol i gyfoethogi a chefnogi cydraddoldeb addysgol.

- Gwelliannau i ansawdd addysg – fe allai enghreifftiau gynnwys;

  i. ariannu Cynorthwywyr Cymorth Dysgu i gynorthwyo myfyrwyr ag AAAA; a
  ii. darparu Datblygiad Proffesiynol Parhaus i wella addysgu ar gyfer myfyrwyr ag AAAA a disgyblion difreintiedig.

# Pam cyflwyno'r amcan nawr?

38. Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i chwalu rhwystrau rhag cyfleoedd a helpu pob plentyn i gyflawni a ffynnu yn yr ysgol.[7] Mae'r amcan arfaethedig hwn yn cefnogi'r [Glasbrint ar gyfer Llywodraeth Ddigidol fodern][8] trwy gydgysylltu gwasanaethau cyhoeddus, gan ei gwneud yn haws i bobl ryngweithio â'r llywodraeth a chael at fudd-

[7] https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6751af4719e0c816d18d1df3/Plan_for_Change.pdf

[8] https://www.gov.uk/government/publications/a-blueprint-for-modern-digital-government/a-blueprint-for-modern-digital-government-html#section-3

daliadau sy’n gysylltiedig ag addysg er mwyn cynorthwyo pob plentyn i gyflawni a ffynnu yn yr ysgol.

39. Mae awdurdodau cyhoeddus ledled Cymru, Lloegr a’r Alban hefyd yn adrodd nad yw pob aelwyd gymwys yn hawlio’r cymorth sydd ar gael iddynt.

- Dangosodd ffurflenni cyllid llywodraeth leol yr Alban ar gyfer 2021-22 fod 72,500 o grantiau dillad ysgol wedi cael eu dyfarnu mewn ysgolion uwchradd, ond dim ond 55,000 o ddisgyblion uwchradd oedd wedi’u cofrestru ar gyfer prydau ysgol am ddim. Mae’r meini prawf ar gyfer dyfarnu’r ddwy ddarpariaeth yn debyg, felly tybir bod nifer sylweddol o aelwydydd nad ydynt yn derbyn y budd-daliadau y mae ganddynt yr hawl iddynt.

- Yn yr Alban, mae prydau ysgol am ddim a ddarperir i’r holl blant wedi cael eu hehangu’n ddiweddar i fwy o gamau o’r ysgol gynradd, felly nid yw’n ddangosydd addas o angen mwyach ac ni ellir ei ddefnyddio i dargedu cyllid.

- Mae’r data diweddaraf am y Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn dangos bod 21,540 o bobl sy’n ei dderbyn wedi cael o leiaf un taliad yn 2023-24. Mae hyn wedi gostwng o 22,225 yn 2022-23. Mae’n bosibl bod pobl ifanc gymwys nad ydynt yn ymwybodol o gymorth y Lwfans Cynhaliaeth Addysg ac felly nad ydynt yn gwneud cais.

- Amcangyfrifodd ymchwil gan Sefydliad Bevan yng Nghymru fod 37,041 o ddisgyblion uwchradd yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn 2022, ond 27,272 yn unig oedd wedi’u hawlio. Mae hyn yn golygu bod tua 73% wedi manteisio arnynt. Mae’r meini prawf dyfarnu ar gyfer y Grant Hanfodion Ysgol wedi’u seilio ar y rhai sy’n cael prydau ysgol am ddim, felly gellir tybio bod y nifer sy’n manteisio arno yr un peth.

## Sut mae’r amcan rhannu gwybodaeth yn cyd-fynd â blaenoriaethau llywodraeth y Deyrnas Unedig?

40. Mae gan lywodraeth y Deyrnas Unedig ddyletswydd glir i gynorthwyo dinasyddion mewn meysydd y mae’n gyfrifol amdanynt, fel budd-daliadau a gedwir ar ôl, a sicrhau bod y bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen. Lluniwyd yr amcan arfaethedig i allu rhannu gwybodaeth er mwyn cynyddu nifer y bobl sy’n manteisio ar fudd-daliadau pasbort sydd o fewn cwmpas y cynnig hwn. Mae’r llywodraeth hon wedi ymrwymo i chwalu rhwystrau rhag cyfleoedd. Bydd y cynnig yn helpu i wneud cynnydd tuag at yr amcan hwn trwy:

- leihau rhwystrau rhag manteisio ar fudd-daliadau pasbort trwy ddefnyddio gwybodaeth a ddelir gan y llywodraeth i symleiddio’r broses ymgeisio;

- sicrhau bod aelwydydd cymwys yn ymwybodol o'r budd-daliadau a'u hawl iddynt, gan wella ymdrechion i gyrraedd carfan o deuluoedd nad ydynt yn ymwybodol o'r cynnig na'u cymhwysedd;
- sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cael at fudd-daliadau a darpariaethau a fydd yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol, gan gynyddu cyrhaeddiad a chwalu rhwystrau rhag cyfleoedd;
- lleihau'r pwysau ariannol ar aelwydydd incwm isel a rhoi arian yn ôl ym mhocedi teuluoedd, gan gyfrannu at ymrwymiad y llywodraeth i fynd i'r afael â thlodi plant; a
- darparu cyllid ychwanegol i sefydliadau addysg lle mae anfantais yn gyffredin ac, wrth wneud hynny, helpu i weithredu mesurau cadarnhaol i wella ansawdd addysg a'r lleoliad addysgol.

41. Bydd gweithredu amcan rhannu gwybodaeth newydd yn helpu llywodraeth yr Alban i gyflawni ei hymrwymiad, a amlinellir yn y Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol, i wella cyfleoedd bywyd plant trwy gynorthwyo teuluoedd a sicrhau bod plentyndod yn rhydd rhag tlodi a newyn.

42. Mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo i ddileu tlodi plant[9]. Gosododd Deddf Tlodi Plant (Yr Alban) 2017 dargedau ymestynnol i leihau tlodi plant, gan osod dyletswydd ar Weinidogion yr Alban i gyhoeddi tri chynllun cyflenwi ar hyd oes y ddeddfwriaeth. Mae'r ddeddf yn gosod fframwaith cadarn ar gyfer gweithredu, adrodd a chraffu mewn statud – gan sicrhau pwyslais cyson ar gyflawni targedau 2030 a chryfhau cefnogaeth i gamau gweithredu pellach ar dlodi plant yn lleol ac yn genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys y ddyletswydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd perthnasol i gyhoeddi adroddiadau gweithredu ar dlodi plant lleol blynyddol, y mae'n rhaid iddynt ddisgrifio'r camau a gymerwyd mewn blwyddyn adrodd benodol ac a gynlluniwyd ar gyfer y blynyddoedd i ddod, sy'n cyfrannu at gyflawni'r targedau tlodi plant. Mae dull Llywodraeth yr Alban yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â thri sbardun lleihau tlodi plant – incwm o gyflogaeth, costau byw ac incwm o nawdd cymdeithasol a buddion mewn nwyddau – a chynorthwyo'r teuluoedd sydd yn y perygl mwyaf o dlodi trwy wasanaethau a dulliau integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

43. Un o ymrwymiadau trawsbynciol craidd y Rhaglen Lywodraethu yng Nghymru yw mynd i'r afael â thlodi, ac mae wedi'i ymgorffori ar draws portffolios, fel yr adlewyrchir yn Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024. Yn rhan o gamau gweithredu i leihau costau a chynyddu incwm teuluoedd gymaint â phosibl, bydd yr amcan arfaethedig yn cefnogi'r uchelgais yng Nghymru i symleiddio'r ffordd y mae budd-daliadau Cymru yn cael eu dylunio a'u darparu, gan weithio tuag at y weledigaeth o ddull cyson a thosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n galluogi pobl i adrodd eu hanes unwaith yn unig i gael yr holl gymorth ariannol y mae ganddynt yr hawl iddo, ni waeth ble yng Nghymru maen nhw'n byw. Yn ogystal, mae Cenhadaeth 6 (Data a Chydweithredu) 'Strategaeth

[9] https://www.gov.scot/publications/first-ministers-speech-vision-for-eradicating-child-poverty-in-scotland/

Ddigidol i Gymru' Llywodraeth Cymru[10] yn amlinellu ymrwymiadau i chwalu rhwystrau rhag rhannu data er mwyn sicrhau bod dinasyddion yn derbyn gwasanaethau gwell a di-dor oherwydd bod data'n cael ei rannu a'i ailddefnyddio ar draws y sector cyhoeddus.

## Pam mae llywodraeth y Deyrnas Unedig yn datblygu'r cynnig hwn?

44. Byddai'r rheoliadau'n ychwanegu amcan newydd y caiff rhai awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru, Lloegr a'r Alban rannu gwybodaeth ar ei gyfer, gan gynnwys adrannau llywodraeth y Deyrnas Unedig fel Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Er bod addysg wedi'i datganoli yng Nghymru a'r Alban, mae Gweinidogion Cymru a Gweinidogion yr Alban ond yn gyfrifol am amcan Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus newydd sydd (i) yn ymwneud â mater datganoledig ac sydd (ii) yn galluogi cyrff penodedig yng Nghymru neu'r Alban i ddatgelu gwybodaeth at ddiben yr amcan *yn unig* (gweler adran 45(2)(c) a (4)(c) Deddf yr Economi Ddigidol 2017). Felly, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gyfrifol am ddatblygu'r cynnig hwn mewn rheoliadau sydd i'w cymeradwyo gan ddau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig.

## A yw'r amcan rhannu gwybodaeth hwn yn berthnasol ledled Cymru, Lloegr a'r Alban?

45. Mae adran 35 Deddf yr Economi Ddigidol 2017 yn berthnasol i'r Deyrnas Unedig gyfan (gweler adran 119 Deddf yr Economi Ddigidol 2017), ond nid yw wedi dechrau yng Ngogledd Iwerddon eto. Felly, bydd rhychwant tiriogaethol y rheoliadau arfaethedig wedi'i gyfyngu i Gymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r budd-daliadau pasbort sydd o fewn cwmpas y cynnig hwn yn amrywio'n rhanbarthol. Cyfeiriwch at baragraff 13 am restr o fudd-daliadau pasbort sy'n benodol i bob tiriogaeth.

## A fydd rhannu gwybodaeth yn cydymffurfio â'r gofynion diogelu data perthnasol?

46. Bydd rhannu gwybodaeth yn cydymffurfio â'r gofynion diogelu data perthnasol. Mae adran 40(8) Deddf yr Economi Ddigidol 2017 yn cadarnhau nad yw adran 35 yn awdurdodi datgeliad sy'n torri'r ddeddfwriaeth diogelu data. Diben y Cod Ymarfer[11] ategol yw darparu set o egwyddorion a chanllawiau ar ddefnyddio a datgelu gwybodaeth o dan bwerau Deddf yr Economi Ddigidol 2017. Mae'r Cod Ymarfer hefyd yn cyfeirio at ofynion eraill wrth rannu gwybodaeth, gan gynnwys deddfwriaeth diogelu data. Mae'r gyfraith diogelu data yn mynnu, ymhlith pethau eraill, bod rhaid i ddata

[10] https://www.gov.wales/digital-strategy-wales-html
[11] https://www.gov.uk/government/publications/digital-economy-act-2017-part-5-codes-of-practice

personol gael ei brosesu'n gyfreithlon, yn deg, mewn modd tryloyw ac at ddibenion penodedig a dilys yn unig.

47. Fe allai adran 35 Deddf yr Economi Ddigidol 2017 ddarparu sail ar gyfer prosesu (gan gynnwys rhannu) data personol yn unol ag Erthygl 6(1)(e) Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y Deyrnas Unedig – prosesu sy'n angenrheidiol i gyflawni tasg er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol.

## A fyddwch chi'n paratoi asesiad o'r effaith ar ddiogelu data?

48. Mae'r Cod Ymarfer yn nodi bod rhaid i awdurdodau cyhoeddus sy'n ymwneud â rhannu data gynnal asesiad o'r effaith ar ddiogelu data cyn rhannu data. Bydd yr asesiad o'r effaith ar ddiogelu data yn asesu manteision posibl y cytundeb rhannu gwybodaeth yn erbyn risg effeithiau negyddol, neu'r potensial ar gyfer effeithiau negyddol – fel tanseilio preifatrwydd personol.

## A fydd rhannu gwybodaeth yn cydymffurfio ag arfer gorau presennol?

49. Mae'r amcan rhannu gwybodaeth arfaethedig yn cydymffurfio ag arferion presennol y llywodraeth, gan gynnwys y Fframwaith Moeseg Data, Fframwaith Ansawdd Data'r Llywodraeth, mentrau ar gyfer gwaith safoni data sy'n cael ei wneud gan yr Awdurdod Safonau Data a Strategaeth Ddigidol Llywodraeth yr Alban. Bydd rhannu gwybodaeth hefyd yn cefnogi Cenhadaeth 6 (Data a Chydweithredu) 'Strategaeth Ddigidol i Gymru' Llywodraeth Cymru[12] ac yn cydymffurfio â Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru.[13] Bydd yr holl bartïon sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth yn adolygu'r trefniadau'n rheolaidd i sicrhau bod cydymffurfedd yn gyson ar hyd y broses weithredu.

## Asesiad o'r effaith

50. Mae asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael ei gynnal yn gysylltiedig â chynigion yr Adran Addysg, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru i asesu unrhyw faterion cydraddoldeb a allai godi o ganlyniad i weithredu'r rheoliadau drafft hyn.

51. Nid oes gan yr amcan arfaethedig hwn unrhyw effaith uniongyrchol ar fusnesau'r Deyrnas Unedig. Felly, ni chynhaliwyd asesiadau ychwanegol o'r effaith.

52. At ei gilydd, bydd sefydlu'r amcan newydd o dan y pŵer cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn helpu i ddarparu effeithiau economaidd a chymdeithasol gwerthfawr i ddinasyddion.

[12] https://www.gov.wales/digital-strategy-wales-html
[13] https://www.waspi.gov.wales/

## Cwestiynau ymgynghori ar gyfer yr amcan budd-daliadau pasbort

**Amodau**
Tri amod adran 35:

Yr amod cyntaf ar gyfer amcanion newydd o dan adran 35 Deddf yr Economi Ddigidol 2017 yw y dylai'r amcan rhannu data geisio gwneud y naill neu'r llall o'r canlynol:

a. gwella neu dargedu gwasanaeth cyhoeddus a ddarperir i unigolion neu aelwydydd; neu
b. ddarparu budd (ariannol neu fel arall) i unigolion neu aelwydydd.

1. **I ba raddau ydych chi'n cytuno bod yr amcan budd-daliadau pasbort arfaethedig yn bodloni o leiaf un o'r rhannau hynny o'r amod cyntaf?**

Yr ail amod yw bod yr amcan yn ceisio gwella lles unigolion neu aelwydydd. Mae'r cyfeiriad at les unigolion neu aelwydydd yn cynnwys:

a. eu hiechyd corfforol a meddyliol a'u lles emosiynol,

b. eu cyfraniad at gymdeithas, ac

c. eu lles cymdeithasol ac economaidd

2. **I ba raddau ydych chi'n cytuno bod yr amcan budd-daliadau pasbort arfaethedig yn bodloni'r ail amod?**

Y trydydd amod yw y dylai'r amcan rhannu data gefnogi cyflawni, gweinyddu, monitro neu orfodi gwasanaeth a ddarperir gan awdurdod (neu awdurdodau) cyhoeddus penodol).

3. **I ba raddau ydych chi'n cytuno bod yr amcan budd-daliadau pasbort arfaethedig yn bodloni'r trydydd amod?**

**Manteision**
4. **A ydych chi'n cytuno y bydd yr amcan budd-daliadau pasbort arfaethedig yn helpu i gyflawni'r manteision a ddisgrifiwyd i unigolion a/neu aelwydydd?**
*Gweler yr adrannau 'beth yw effaith debygol yr amcan newydd' a 'manteision mynediad at y darpariaethau pasbort' i gael crynodeb o'r manteision.*

**Y wybodaeth sydd i'w rhannu**

5. **A ydych chi'n credu y dylai unrhyw wybodaeth ychwanegol gael ei chynnwys i helpu i dargedu a darparu'r budd-daliadau pasbort?** Cyfeiriwch at yr adran 'pa wybodaeth fydd yn cael ei rhannu' ar gyfer rhestr o'r eitemau gwybodaeth sydd o fewn cwmpas yr amcan arfaethedig.

**Budd-daliadau pasbort sydd o fewn cwmpas y cynnig**

6. **A ydych chi'n credu y dylai budd-daliadau pasbort ychwanegol sy'n gysylltiedig ag addysg gael eu hystyried yn rhan o'r amcan hwn?** Cyfeiriwch at baragraff 13 ar gyfer rhestr o'r budd-daliadau sydd o fewn cwmpas yr amcan arfaethedig hwn.

**Cyrff sy'n ymwneud â'r amcan rhannu gwybodaeth arfaethedig**

7. **A ydych chi'n cytuno y dylai'r awdurdodau cyhoeddus canlynol ddod yn unigolyn penodedig sy'n gymwys i rannu data ar gyfer amcanion cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus (bydd yr awdurdodau cyhoeddus arfaethedig isod yn cael eu rhestru yn atodlen 4)?**

   a. **perchennog ysgol Academi, o fewn ystyr adran 1A Deddf Academïau 2010;**
   b. **perchennog Academi darpariaeth amgen, o fewn ystyr adran 1C y Ddeddf honno;**
   c. **corff llywodraethu ysgol a gynhelir, o fewn ystyr Deddf Safonau a Fframwaith ysgolion 1998 (gweler adran 20(7) y Ddeddf honno);**
   ch. **corff llywodraethu ysgol arbennig nas cynhelir, sef ysgol a gymeradwywyd o dan adran 342 Deddf Addysg 1996;**
   d. **pwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion, o fewn ystyr adran 19 Deddf Addysg 1996**

8. **A ydych chi'n credu y dylai unrhyw adrannau eraill o'r llywodraeth neu awdurdodau cyhoeddus eraill gael eu cynnwys i gefnogi'r amcan rhannu gwybodaeth a amlinellir yn y cynnig hwn?** Cyfeiriwch at yr adran 'pwy fydd yn defnyddio'r pŵer rhannu gwybodaeth' ar gyfer rhestr o awdurdodau cyhoeddus arfaethedig.

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

9. **A ydych chi'n credu y bydd y bwriad i rannu gwybodaeth ar gyfer yr amcan budd-daliadau pasbort yn cael unrhyw effaith ar bobl sy'n rhannu unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig o dan Deddf Cydraddoldeb 2010? (Mae nodweddion gwarchodedig yn cynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol)**

**Mae hyn yn helpu'r llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus i leihau'r risg y bydd unrhyw effeithiau niweidiol yn cael effaith anghymesur ar unrhyw grwpiau penodol. Fe allai effeithiau niweidiol gynnwys y canlynol, ymhlith pethau eraill:**

a. **achosi i bobl sydd â nodweddion gwarchodedig deimlo eu bod yn destun gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth;**
b. **arwain at gyfle anghyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu;**
c. **cael effaith negyddol ar gysylltiadau rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu**

# Rhan 2: y diwygiad i'r pŵer tlodi tanwydd

53. Mae'r rhan hon o'r papur ymgynghori yn amlinellu cynnig i ddiwygio adran 36 Deddf yr Economi Ddigidol 2017, sy'n darparu pwerau rhannu gwybodaeth i gefnogi unigolion ac aelwydydd cymwys sy'n byw mewn tlodi tanwydd. Byddai'r diwygiadau arfaethedig yn ymestyn cwmpas y pwerau hyn i ganiatáu ar gyfer rhannu gwybodaeth yn ehangach, a fydd yn galluogi'r llywodraeth i rannu gwybodaeth â chyflenwyr ynni i ddarparu ystod ehangach o gynlluniau cymorth i ddefnyddwyr ynni.

54. Mae Pennod 1 Rhan 5 Deddf yr Economi Ddigidol 2017 yn darparu fframwaith cyfreithiol i ganiatáu ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng adrannau penodedig o'r llywodraeth a chyflenwyr nwy a thrydan, er mwyn sicrhau cymorth ariannol i unigolion ac aelwydydd sy'n wynebu tlodi tanwydd. Mae'r fframwaith hwn wedi'i ategu gan ddarpariaethau deddfwriaethol: mae adran 35 a Rheoliadau Llywodraeth Ddigidol (Datgelu Gwybodaeth) 2018 (gweler paragraff 1(c) yr atodlen i'r rheoliadau hyn) yn galluogi rhannu gwybodaeth rhwng adrannau'r llywodraeth i amlygu unigolion ac aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd; mae adran 36 yn darparu porth cyfreithiol i adrannau'r llywodraeth rannu gwybodaeth am gymhwysedd â chwmnïau ynni; ac mae adran 37 yn caniatáu i gyflenwyr ynni rannu data cwsmeriaid perthnasol ag adrannau'r llywodraeth i ddarparu cymorth.

55. Rhwng 2024 a 2025, arweiniodd rhannu gwybodaeth rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau, yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net a chyflenwyr ynni at leihau costau ynni £150 ar gyfer 3.22 miliwn o aelwydydd ledled Prydain Fawr, a ddaeth i gyfanswm o £483 miliwn. O ganlyniad i rannu gwybodaeth a alluogwyd gan y pwerau tlodi tanwydd, cafodd 96% (3.1 miliwn) o unigolion ac aelwydydd y gostyngiad £150 i'w biliau ynni yn awtomatig.[14]

56. Ar hyn o bryd, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Adran Diogeledd Ynni a Sero Net yn nodi aelwydydd sy'n gymwys ar gyfer cymorth ariannol, yn asesu effeithlonrwydd ynni cartrefi ac yn defnyddio adran 36 Deddf yr Economi Ddigidol 2017 i gadarnhau cymhwysedd gyda chyflenwyr nwy a thrydan perthnasol. Yna, mae cyflenwyr nwy a thrydan yn rhoi cymorth perthnasol i'r partïon cymwys hynny.

57. Fodd bynnag, mae adran 36 yn caniatáu rhannu data ar gyfer cynlluniau penodol a enwyd yn y ddeddfwriaeth yn unig. Mae'r cyfyngiad hwn yn atal rhannu gwybodaeth i gefnogi unrhyw fentrau cymorth ynni nad ydynt wedi'u cynnwys yn y darpariaethau hynny, sy'n golygu bod cynlluniau o'r fath y tu allan i'r cylch gwaith.

[14] https://www.gov.uk/government/statistics/warm-home-discount-statistics-2024-to-2025/warm-home-discount-statistics-2024-to-2025

# Y cynnig – diwygio adran 36 Deddf yr Economi Ddigidol 2017

58. Er mwyn ehangu'r pwerau rhannu gwybodaeth yn adran 36, mae'r llywodraeth yn cynnig gwneud rheoliadau o dan adran 36(5)(c) Deddf yr Economi Ddigidol 2017 i ychwanegu cyfeiriadau at Ddeddf Nwy a Thrydan Domestig (Cap ar Dariffau) 2018, Deddf Trydan 1989 a Deddf Nwy 1986 at adran 36(3).

59. Byddai'r newid hwn yn sefydlu'r porth rhannu gwybodaeth angenrheidiol sy'n ofynnol i ddarparu Cynllun Rhyddhau o Ddyled ynni i gynorthwyo cwsmeriaid domestig sydd mewn dyled i'w cyflenwr nwy neu drydan yn gysylltiedig â chyflenwad nwy neu drydan.

60. Mae'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn berthnasol i reoliadau o dan adran 36(5) Deddf yr Economi Ddigidol 2017, sy'n golygu y bydd angen i reoliadau drafft gael eu cymeradwyo gan ddau Dŷ'r Senedd cyn y gellir eu gwneud.

# Cynllun Rhyddhau o Ddyled Ofgem

61. Un enghraifft o gynllun sydd y tu allan i gwmpas yr amcan tlodi tanwydd yw Cynllun Rhyddhau o Ddyled arfaethedig Ofgem.

62. Yn ôl ymgynghoriad polisi Ofgem, [Resetting the energy debt landscape](https://www.ofgem.gov.uk/consultation/resetting-energy-debt-landscape-case-debt-relief-scheme), bu cynnydd sylweddol mewn dyledion ac ôl-ddyledion yn y sector ynni ers dechrau'r argyfwng ynni (ail chwarter 2022). Yn y cyd-destun hwn, mae dyled yn golygu arian sy'n ddyledus ac mae ôl-ddyledion yn golygu sefyllfaoedd lle nad oes cynllun talu ar waith i ad-dalu'r ddyled. Yn gyffredinol, mae dyledion ac ôl-ddyledion wedi cynyddu'n raddol ers yr argyfwng ynni. Mae ymgynghoriad Ofgem yn adrodd bod nifer gyfunol y cyfrifon domestig sydd mewn dyled ac ôl-ddyledion wedi sefydlogi, fwy neu lai, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sy'n dangos bod y twf parhaus yng nghyfanswm y dyledion a'r ôl-ddyledion yn cael ei ysgogi gan ddefnyddwyr sydd eisoes yn cael trafferth talu eu biliau.[15]

63. Er mwyn cynorthwyo unigolion ac aelwydydd yr effeithir arnynt, mae Ofgem wedi cynnig Cynllun Rhyddhau o Ddyled ynni i helpu cwsmeriaid domestig cymwys â dyled a gafwyd yn ystod yr argyfwng ynni. Byddai'r cynllun arfaethedig yn ceisio clirio tua £500 miliwn ac £1 biliwn o ddyled ynni sy'n weddill. Disgwylir iddo gyflawni nifer o fanteision:

    a. rhoi cymorth i gwsmeriaid ynni leihau neu ddileu dyled ynni sydd wedi cronni yn ystod yr argyfwng ynni;

    b. ailosod y farchnad ynni manwerthu domestig trwy fynd i'r afael â'r lefelau uchaf erioed o ddyledion ac ôl-ddyledion defnyddwyr;

[15] https://www.ofgem.gov.uk/consultation/resetting-energy-debt-landscape-case-debt-relief-scheme

c. cyfrannu at farchnad ynni decach oherwydd gallai llai o ddyled ar draws y sector ynni leihau'r cap ar gostau yn y dyfodol;

ch. annog arferion gwell o ran rheoli dyledion ynni yn yr hirdymor;

d. cynyddu nifer y cwsmeriaid sy'n ymgysylltu'n weithredol â chwmnïau ynni;

dd. hyrwyddo datblygiad cynlluniau ad-dalu dyledion hirdymor; a

e. ffurfio rhan o becyn ehangach i ddiwygio'r ymagwedd at ddyled ynni.[16]

64. Mae Ofgem wrthi'n dylunio'r model ariannu ar gyfer y Cynllun Rhyddhau o Ddyled ynni arfaethedig.

65. Er bod y llywodraeth yn cydnabod y cymorth presennol, mae'n sylweddoli bod angen lleddfu baich costau ynni ar unigolion ac aelwydydd ymhellach a bydd yn cefnogi Ofgem i gyflenwi'r Cynllun Rhyddhau o Ddyled.

66. Nid oes porth cyfreithiol ar hyn o bryd sy'n hwyluso rhannu gwybodaeth rhwng y llywodraeth a'r sector ynni i ddarparu'r cymorth hwn, gan nad yw'r cynllun wedi'i restru yn adran 36 (3) Deddf yr Economi Ddigidol 2017.

67. Mae'r llywodraeth yn cydnabod bod rhannu gwybodaeth yn effeithiol yn hanfodol i gyflenwi'r Cynllun Rhyddhau o Ddyled ynni yn llwyddiannus. Felly, mae'n ceisio ehangu Adran 36 i gefnogi rhannu gwybodaeth yn ehangach, a galluogi'r cynllun i ddarparu cymorth wedi'i dargedu i unigolion ac aelwydydd cymwys.

## Manteision rhannu gwybodaeth

68. Byddai'r diwygiad yn golygu y gellir rhoi cymorth wedi'i dargedu i ystod ehangach o aelwydydd sydd y tu allan i'r amcan tlodi tanwydd presennol ar hyn o bryd, yn enwedig y rhai hynny sydd â baich dyled sylweddol sydd wedi cronni yn ystod yr argyfwng ynni.

69. Bydd pwerau rhannu gwybodaeth ehangach yn galluogi'r llywodraeth i ddarparu manteision, gan gynnwys:

a. cefnogi mentrau newydd i amlygu a chynorthwyo defnyddwyr ynni nad ydynt wedi cael cymorth yn flaenorol o dan y fframwaith deddfwriaethol presennol

b. lleihau beichiau gweinyddol: ar hyn o bryd, mae adran 36 yn caniatáu ar gyfer darparu buddion y cynllun Gostyngiad Cartref Cynnes i unigolion cymwys yn awtomatig. Byddai defnyddio'r un dull ar gyfer y Cynllun Rhyddhau o Ddyled yn golygu y gellir rhoi cymorth cysylltiedig i aelwydydd cymwys yn awtomatig, gan

[16] https://www.ofgem.gov.uk/sites/default/files/2024-12/Resetting_the_energy_debt_landscape_the_case_for_a_debt_relief_scheme.pdf

ddileu'r angen am waith papur ychwanegol a lleihau beichiau gweinyddol ar ddinasyddion.

## Cynnig i rannu gwybodaeth o dan y Cynllun Rhyddhau o Ddyled

70. Yn dilyn y diwygiad i adran 36 Deddf yr Economi Ddigidol 2017, byddai Ofgem yn symud ymlaen i ddiwygio'r Drwydded Cyflenwi Nwy a'r Drwydded Cyflenwi Trydan, gan felly alluogi rhannu gwybodaeth rhwng y llywodraeth a chyflenwyr ynni, i gynorthwyo i amlygu aelwydydd cymwys y mae arnynt angen cymorth i glirio dyled sydd wedi cronni yn ystod yr argyfwng ynni.

71. Ar gyfer darparu, bydd y Cynllun Rhyddhau o Ddyled ynni arfaethedig yn defnyddio data budd-daliadau prawf modd yr Adran Gwaith a Phensiynau, a fydd yn cynnwys gwybodaeth bersonol a rannodd yr Adran Gwaith a Phensiynau gyda chyflenwyr ynni. Bydd hyn yn golygu y gellir rhoi cymorth wedi'i dargedu i leihau dyled ynni i ddefnyddwyr cymwys ledled Cymru, Lloegr a'r Alban.

72. Bydd rhannu data ychwanegol rhwng cyflenwyr ynni a'r Adran Gwaith a Phensiynau yn golygu y gellir amlygu defnyddwyr ar gyfer y Cynllun Rhyddhau o Ddyled ynni nad ydynt eisoes wedi'u hamlygu yn rhan o rannu data ar gyfer y Gostyngiad Cartref Cynnes.

73. Mae'r Gostyngiad Cartref Cynnes yn cael ei gymhwyso'n wahanol ledled Cymru, Lloegr a'r Alban. Yn yr Alban, mae'r cynllun yn berthnasol i grŵp ehangach, ac mae gan gyflenwyr yr hyblygrwydd i gynnig meini prawf cymhwysedd ychwanegol. At ddibenion y Cynllun Rhyddhau o Ddyled ynni, mae Ofgem yn credu y bydd defnyddio set ddata budd-daliadau prawf modd ar gyfer pob awdurdodaeth yn osgoi anghysondebau mewn cymhwysedd rhwng Cymru, Lloegr a'r Alban, fel sy'n bodoli ar hyn o bryd o dan y cynllun Gostyngiad Cartref Cynnes.

## Pwy fydd y newidiadau arfaethedig i adran 36 yn effeithio arnynt?

74. Mae'r llywodraeth ac Ofgem yn disgwyl i gyflwyno'r Cynllun Rhyddhau o Ddyled ynni arwain at fanteision helaeth i ddinasyddion ledled y Deyrnas Unedig. Bydd yn lleihau'r ddyled a gronnwyd gan unigolion ac aelwydydd yn ystod yr argyfwng ynni. Mae dyledion ac ôl-ddyledion uchel yn niweidiol i ddefnyddwyr a'r farchnad. Maen nhw'n achosi llawer o ofid i'r bobl nad ydynt yn gallu eu had-dalu ac, oherwydd bod costau dyledion yn cael eu rhannu, maen nhw'n arwain at brisiau uwch i bawb. Mae lefelau dyled anghynaliadwy yn bygwth sefydlogrwydd y farchnad, hefyd.

## A yw'r newidiadau arfaethedig i adran 36 yn berthnasol ledled y Deyrnas Unedig?

75. Mae adran 36 Deddf yr Economi Ddigidol 2017 yn berthnasol i Gymru, Lloegr a'r Alban. Nid yw'n berthnasol i Ogledd Iwerddon. Bydd y Cynllun Rhyddhau o Ddyled ynni a ddisgrifir yn yr ymgynghoriad hwn yn berthnasol i Gymru, Lloegr a'r Alban yn unig oherwydd Ofgem yw'r rheoleiddiwr ynni ar gyfer Prydain Fawr. Mae rheoleiddiwr annibynnol ar wahân yn bodoli yng Ngogledd Iwerddon i reoleiddio diwydiannau trydan a nwy'r wlad honno.
76. Bydd y diwygiadau i adran 36 Deddf yr Economi Ddigidol 2017 yn berthnasol i Gymru, Lloegr a'r Alban.

## A fydd rhannu gwybodaeth yn cydymffurfio â'r gofynion diogelu data perthnasol?

77. Bydd rhannu gwybodaeth yn cydymffurfio â'r gofynion diogelu data perthnasol. Mae adran 40(8) Deddf yr Economi Ddigidol 2017 yn cadarnhau nad yw adran 36 yn awdurdodi datgeliad sy'n torri'r ddeddfwriaeth diogelu data. Diben y Cod Ymarfer[17] ategol yw darparu set o egwyddorion a chanllawiau ar ddefnyddio a datgelu gwybodaeth o dan bwerau Deddf yr Economi Ddigidol 2017. Mae'r Cod Ymarfer hefyd yn cyfeirio at ofynion eraill wrth rannu gwybodaeth, gan gynnwys deddfwriaeth diogelu data. Mae'r gyfraith diogelu data yn mynnu, ymhlith pethau eraill, bod rhaid i ddata personol gael ei brosesu'n gyfreithlon, yn deg, mewn modd tryloyw ac at ddibenion penodedig a dilys yn unig.
78. Fe allai adran 36 Deddf yr Economi Ddigidol 2017 ddarparu sail ar gyfer prosesu (gan gynnwys rhannu) data personol yn unol ag Erthygl 6(1)(e) Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y Deyrnas Unedig – prosesu sy'n angenrheidiol i gyflawni tasg er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol.

## A fyddwch chi'n paratoi asesiad o'r effaith ar ddiogelu data?

79. Mae'r Cod Ymarfer yn nodi bod rhaid i awdurdodau cyhoeddus sy'n ymwneud â rhannu data gynnal asesiad o'r effaith ar ddiogelu data cyn rhannu data. Bydd yr asesiad o'r effaith ar ddiogelu data yn asesu manteision posibl y cytundeb rhannu gwybodaeth yn erbyn risg effeithiau negyddol, neu'r potensial ar gyfer effeithiau negyddol – fel tanseilio preifatrwydd personol.

[17] https://www.gov.uk/government/publications/digital-economy-act-2017-part-5-codes-of-practice

# A fydd rhannu gwybodaeth yn cydymffurfio ag arfer gorau presennol?

80. Mae'r amcan rhannu gwybodaeth arfaethedig yn cydymffurfio ag arferion presennol y llywodraeth, gan gynnwys y Fframwaith Moeseg Data, Fframwaith Ansawdd Data'r Llywodraeth, mentrau ar gyfer gwaith safoni data sy'n cael ei wneud gan yr Awdurdod Safonau Data a Strategaeth Ddigidol Llywodraeth yr Alban. Bydd rhannu gwybodaeth hefyd yn cefnogi Cenhadaeth 6 (Data a Chydweithredu) 'Strategaeth Ddigidol i Gymru' Llywodraeth Cymru[18] ac yn cydymffurfio â Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru.[19] Bydd yr holl bartïon sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth yn adolygu'r trefniadau'n rheolaidd i sicrhau bod cydymffurfedd yn gyson ar hyd y broses weithredu.

# Asesiad o'r effaith

81. Er mwyn sicrhau bod holl effeithiau bwriadol ac anfwriadol y diwygiadau wedi cael eu hystyried a bod mesurau lliniaru wedi'u sefydlu, cynhaliwyd yr asesiadau o'r effaith canlynol:
    - mae Ofgem wedi cynnal asesiad o'r effaith i ystyried effeithiau Cynllun Rhyddhau o Ddyled er mwyn mynd i'r afael â dyled ynni sydd wedi cronni yn ystod yr argyfwng ynni.
    - mae Ofgem wedi cynnal asesiad Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

82. Nid oes gan y diwygiad arfaethedig hwn unrhyw effaith uniongyrchol ar fusnesau'r Deyrnas Unedig. Felly, ni chynhaliwyd asesiadau ychwanegol o'r effaith.

# Cwestiynau ymgynghori ar gyfer y diwygiad i adran 36

**Cynllun Rhyddhau o Ddyled Ynni**

1. **I ba raddau ydych chi'n ystyried y bydd y diwygiad arfaethedig yn helpu i ddarparu Cynllun Rhyddhau o Ddyled ynni ar gyfer unigolion a/neu aelwydydd?**

2. **A ydych chi'n credu y bydd y diwygiad arfaethedig yn lleddfu caledi ariannol ar gyfer unigolion sydd â dyled bil ynni?**

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

[18] https://www.gov.wales/digital-strategy-wales-html
[19] https://www.waspi.gov.wales/

3. **A ydych chi'n credu y bydd y diwygiad arfaethedig i adran 36 yn cael unrhyw effaith ar bobl sy'n rhannu unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig o dan [Ddeddf Cydraddoldeb 2010]? (Mae nodweddion gwarchodedig yn cynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol)**

   **Mae hyn yn helpu'r llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus i leihau'r risg y bydd unrhyw effeithiau niweidiol yn cael effaith anghymesur ar unrhyw grwpiau penodol. Fe allai effeithiau niweidiol gynnwys y canlynol, ymhlith pethau eraill:**

   a. **achosi i bobl sydd â nodweddion gwarchodedig deimlo eu bod yn destun gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth;**
   b. **arwain at gyfle anghyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu;**
   c. **cael effaith negyddol ar gysylltiadau rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu**

# Gofynion ymgynghori

83. Mae adran 40(4) Deddf yr Economi Ddigidol 2017 yn mynnu bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig, y Comisiynydd Gwybodaeth a Chomisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi ynglŷn ag unrhyw newidiadau deddfwriaethol arfaethedig. Mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd ymgynghori â'r cyfryw unigolion eraill ag y mae'n credu sy'n briodol.

84. Rydym yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'r diwygiadau arfaethedig hyn fel y gallwn fod yn hyderus ein bod wedi ymgynghori â'r holl unigolion y gellid ystyried yn rhesymol ei bod yn briodol ymgynghori â nhw. Bydd hyn yn sicrhau bod ystod mor eang â phosibl o safbwyntiau'n cael eu hystyried a'u cynnwys yn y rheoliadau cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Senedd ar gyfer cymeradwyaeth.

# Y camau nesaf

85. Ar ôl i'r ymgynghoriad hwn gau, bydd yr holl ymatebion yn cael eu hystyried a'u dadansoddi'n ofalus a bydd y llywodraeth yn cyhoeddi ymateb o fewn 12 wythnos ar dudalen we'r ymgynghoriad ar GOV.UK.

86. Os bydd safbwyntiau'n cefnogi'r cynnig a amlinellir yn y papur ymgynghori hwn, bydd y llywodraeth yn mynd ati i wneud y newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 trwy offeryn statudol.

## Amserlen dros dro ar gyfer y broses seneddol

87. Amlinellir amserlen dros dro ar gyfer diwygio'r ddeddfwriaeth isod. Sylwch y gallai newid wrth i ni symud ymlaen drwy'r broses seneddol. Bydd amserlen derfynol yn cael ei chadarnhau ar ôl y cyfnod ymgynghori a'i chyhoeddi ar GOV.UK yn rhan o ymateb y llywodraeth i'r ymgynghoriad hwn.

88. Diolch am gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori hwn.

| **Gweithgarwch** | **Pryd** |
|---|---|
| Dyddiad gosod drafft ar gyfer yr Offeryn Statudol | Ionawr 2026 |
| Deddfu'r pwerau | Gwanwyn 2026 |

Mae’r ymgynghoriad hwn ar gael yn: www.gov.uk/government/organisations/department-for-science-innovation-and-technology

Os oes arnoch angen fersiwn o’r ddogfen hon mewn fformat mwy hygyrch, anfonwch neges e-bost at alt.formats@dsit.gov.uk. Dywedwch wrthym ba fformat y mae arnoch ei angen. Byddai’n ddefnyddiol petaech yn dweud pa dechnoleg gynorthwyol rydych yn ei defnyddio.